Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

4 Awst 2020

Annwyl gyfeillion

Torri'r rheol 21 diwrnod

Yn ein cyfarfod ar 3 Awst 2020, gwnaethom drafod yr offerynnau a ganlyn: **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020**, **Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020** a **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**.

Roedd ein hadroddiad dilynol yn nodi bod yr offerynnau wedi'u gosod **gan dorri'r rheol 21 diwrnod**, a'r rhesymau dros wneud hynny, fel y'u nodwyd yn llythyrau'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd.

Ysgrifennais atoch ar 17 Mawrth 2020, ac eto ar 1 Gorffennaf a 8 Gorffennaf 2020, gan nodi ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn torri'r rheol 21 diwrnod yn fwyfwy rheolaidd. Fel y dywedais eisoes, nid ydym am weld yr arfer o dorri'r rheol 21 diwrnod yn cael ei normaleiddio mewn unrhyw ffordd.

Byddwn yn parhau i fonitro amlder ac amgylchiadau'r achosion o dorri'r rheol 21 diwrnod yn y dyfodol er mwyn gwneud asesiad cronnus ar ddyddiad priodol yn y dyfodol.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565